# Lloches
# Cwestiynau Cyffredin

Caiff Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (y Bartneriaeth), a sefydlwyd yn 2001, ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i hwyluso arweinyddiaeth strategol, cyngor a chydgysylltu mewn perthynas ag ymfudo. Cynhelir y Bartneriaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i adlewyrchu ei rôl ledled Cymru gyfan mewn perthynas ag ymfudo.

Mae Cydlynydd Lloches y Bartneriaeth yn cynorthwyo cynghorau yng Nghymru gyda'r broses wasgaru, lle mae'r Swyddfa Gartref yn symud ceiswyr lloches amddifad i gynghorau ar hyd a lled y DU o dan eu polisi Gwasgaru Llawn.


| |
|---|
| Pwy sy'n unigolyn sy'n ceisio lloches (ceiswyr lloches)? |
| Faint o geiswyr lloches sydd yn y DU a Chymru? |
| Beth yw prif genedligrwydd y bobl sy'n ceisio lloches? |
| Beth sy'n digwydd i bobl sy'n ceisio lloches? |
| Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn cael penderfyniad ar eu cais am loches? |
| Beth allwch chi ei ddweud wrthyf am lety lloches? |
| Pam mae ceiswyr lloches yn cael llety yn fy nghymdogaeth? |
| Beth fydd yn digwydd i bobl â phroblemau diogelu? |
| Sut mae ceiswyr lloches yn cael eu cynefino wrth gyrraedd? |
| Pa fath o gefnogaeth feddygol a chyfeirio fydd ar gael? |
| Pa wiriadau mae'r Swyddfa Gartref yn eu cynnal i sicrhau fod ystyriaethau iechyd cyhoeddus yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn gweithrediadau gwasgaru? |
| A yw hunaniaeth unigolion yn cael ei wirio? Pa wiriadau sydd wedi cael eu cynnal mewn perthynas â chofnodion troseddol? |
| A oes asesiadau risg wedi eu cynnal? |
| Pa gyllid sydd ar gael? |
| Ble arall allaf gael help? |
| Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth? |


## Pwy sy'n unigolyn sy'n ceisio lloches (ceiswyr lloches)?

Mae rhywun sy'n ceisio lloches, (neu "geisiwr lloches") yn unigolyn sydd wedi gadael ei wlad enedigol a gwneud cais ffurfiol am loches mewn gwlad arall ond heb gael cadarnhad o ganlyniad y cais eto. **Mae eu presenoldeb yn y DU yn gyfreithlon tra mae eu cais am loches yn cael ei ystyried.** Caiff holl geisiadau ceisio lloches eu cyflwyno o fewn y DU i system ceisio lloches y DU, mae'n rhaid eu hystyried yn llawn ac yn ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r Swyddfa Gartref yn symud unrhyw un sy'n wynebu erledigaeth neu niwed difrifol yn ôl i'w gwlad wreiddiol.

Cynigir amddiffyniad fel arfer os bydd gan ymgeisydd ofn sydd â sail gadarn o gael ei erlyn dan y Confensiwn Ffoaduriaid, neu'n wynebu risg wirioneddol o niwed difrifol. Bydd y rheiny sy'n gymwys fel arfer yn cael caniatâd i aros am bum mlynedd ac yn cael mynediad at y farchnad lafur a chymorth lles. Os canfyddir nad oes angen i ymgeiswyr gael eu diogelu, byddant yn cael eu gwrthod ac unwaith y bydd eu hawl i apelio wedi dod i ben, bydd disgwyl iddynt adael y DU.

## Faint o geiswyr lloches sydd yn y DU a Chymru?

Cafwyd 108,000 o geisiadau am loches yn 2024, a oedd yn ymwneud â 84,000 o achosion yn y DU
(Crynodeb o'r ystadegau diweddaraf – GOV.UK)

Mae 3389 o geiswyr lloches yn cael eu lletya gan y Swyddfa Gartref yng Nghymru (4% o gyfanswm y DU)

## Beth yw prif genedligrwydd y bobl sy'n ceisio lloches?

Y 5 prif genedligrwydd yn 2024 oedd -

- Affganistan
- Iran
- Syria
- Eritrea
- Fietnam

Ffynhonnell: Ystadegau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref.

## Beth sy'n digwydd i bobl sy'n ceisio lloches?

Tra maent yn aros am benderfyniad ynglŷn â'u cais am amddiffyniad ffoaduriaid, ni all pobl sy'n ceisio lloches yn y DU hawlio budd-daliadau ac fel arfer **ni chaniateir iddynt weithio**. Mae'r rheolau Mewnfudo'n caniatáu i geiswyr lloches wneud cais am ganiatâd i weithio os ydynt wedi bod yn aros **dros 12 mis** am benderfyniad i'w cais "heb unrhyw fai arnyn nhw".

Bydd gan rai ceiswyr lloches eu cynilon eu hunain neu byddant yn cael cymorth gan eu teulu neu ffrindiau ac ni fyddant yn gofyn i Lywodraeth y DU am gefnogaeth.

I bobl sy'n ceisio lloches a fyddai fel arall yn amddifad, mae'r Swyddfa Gartref yn darparu lwfans wythnosol o £49.18 i bob unigolyn ar yr aelwyd sydd mewn llety hunangynhaliol ac £8.86 i bob unigolyn sydd mewn llety lle mae prydau bwyd yn cael eu darparu. Mae'r Swyddfa Gartref yn defnyddio contractwr preifat, **Clearsprings Ready Homes** i ddarparu llety lloches yng Nghymru.

Mae gan y Swyddfa Gartref gontract gyda **Migrant Help** i ddarparu cymorth, gwybodaeth ac arweiniad annibynnol ychwanegol i bobl sy'n ceisio lloches, gyda llinell gymorth 24/7 ar **0808 8010 503**.

## Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn cael penderfyniad ar eu cais am loches?

Os yw ceisiwr lloches yn cael caniatâd i aros yn y DU - boed yn statws ffoadur, caniatâd yn ôl disgresiwn, neu amddiffyniad dyngarol, byddant wedyn yn gymwys i weithio, hawlio budd-daliadau lles os oes angen, a chwilio am dai'r sector preifat.

O 1 Ionawr 2025 bydd yr Hawlen Preswylio Biometrig yn cael ei disodli gan fisa electronig (eFisa), sef cofnod ar-lein o'ch statws mewnfudo ac amodau'ch caniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU. Bydd arnoch chi angen cyfrif UKVI i gael mynediad at eich fisa. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am eFisas yma: Online immigration status (eVisa) - GOV.UK (www.gov.uk)

Bydd y Swyddfa Gartref yn disgwyl i'r rheiny sy'n cael penderfyniad negyddol gan y Swyddfa Gartref ("ceiswyr lloches a wrthodwyd") adael y DU, neu unwaith y bydd yr hawl i apelio wedi dod i ben os ydynt am apelio.

Bydd aelwydydd heb blant yn colli cymorth ac yn cael eu troi allan o'r llety ceiswyr lloches ar ôl 21 diwrnod. Mae'n bosibl y bydd unrhyw un sy'n gwrthod gadael yn wirfoddol yn cael eu gorfodi i adael, unwaith yr atebir y meini prawf i drefnu eu troi allan. Rhai o'r meini prawf yw derbyn Hysbysiad Atebolrwydd i Symud, dim rhwystrau o ran gwaith achos heb ei gwblhau, neu fod yr unigolyn yn addas i'w symud. Ni fydd y Swyddfa Gartref yn anfon unrhyw un yn ôl i'w gwlad wreiddiol neu wlad arall os oes perygl iddynt wynebu erledigaeth neu niwed difrifol.

## Beth allwch chi ei ddweud wrthyf am lety lloches?

- Mae'n rhwymedigaeth statudol ar y Swyddfa Gartref i gefnogi a darparu llety i geiswyr lloches a fyddai fel arall yn amddifad yn ôl Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Mae'r mathau o lety a ddefnyddir yn disgyn yn fras o dan ddau gategori - Llety Cychwynnol a Llety Gwasgaru.
- Mae Llety Wrth Gefn yn llety dros dro, fel arfer mewn gwestai, pan fo niferoedd uchel o bobl yn ceisio lloches o fewn y system.
- Y darparwyr llety yng Nghymru yw Clearspings/Ready Homes (CRH) sy'n darparu llety, cludiant a gwasanaethau cymorth.

- Mae CRH yn nodi bob eiddo, Tai Amlfeddiannaeth neu fflatiau hunangynhwysol fel arfer, ac yn cyflwyno pob cynnig i'r cynghorau i'w cymeradwyo.
- O dan y Contractau Cymorth Llety Lloches (AASC) presennol, mae darparwyr llety yn dilyn proses diwydrwydd dyladwy i sicrhau fod pob safle yn darparu llety diogel ac addas i bobl tra maent yn cael cymorth lloches.

- Gyda
  chefnogaeth y Bartneriaeth, mae'r Swyddfa Gartref a Clearsprings Ready Homes yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, cynghorau, partneriaid iechyd, plismona, a'r trydydd sector i gael dull gweithredu cydlynol er mwyn gwasgaru

## Pam mae ceiswyr lloches yn cael llety yn fy nghymdogaeth?

Mae gan Lywodraeth y DU bolisi 'gwasgaru llawn', felly mae disgwyl i bob cyngor yng Nghymru, yr Alban a Lloegr roi llety i geiswyr lloches. Ar gyfer pob eiddo mae cynghorau'n cael y cyfle i roi adborth ac amlygu unrhyw faterion neu bryderon am y lleoliad, y math o eiddo yn ogystal ag unrhyw agweddau iechyd a diogelwch ar yr adeilad y gallai fod angen mynd i'r afael â nhw.

## A oes asesiadau risg wedi eu cynnal?

Mae'r Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr lloches asesu risg yn rheolaidd fel mater o drefn wrth ddarparu gofynion eu contract. Mae hyn yn cynnwys asesu'r defnydd o leoliadau unigol, yn ogystal â'r risg mwy cyffredinol ar draws y system o ddefnyddio mathau eraill o lety megis gwestai.

## Beth fydd yn digwydd i bobl â phroblemau diogelu?

Bydd rhai ceiswyr lloches wedi dioddef trawma sylweddol cyn cyrraedd y DU neu mae'n bosibl y bydd ganddynt anghenion penodol ac y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Pan dderbynnir ceisiadau am gymorth, gan nodi risgiau i iechyd a lles, neu bryderon ynghylch lles, naill ai drwy **Migrant Help** neu drwy Clearsprings Ready Homes, maent yn gyfrifol am gymryd y camau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch a lles defnyddwyr gwasanaeth ac yn gorfod hysbysu'r Swyddfa Gartref yn unol â hynny. Hefyd, dylai CRH atgyfeirio Defnyddwyr Gwasanaeth sydd mewn perygl neu ag anghenion penodol i dimau perthnasol y cyngor am asesiad gofal a chymorth.

## Sut mae ceiswyr lloches yn cael eu cynefino wrth gyrraedd?

O fewn un diwrnod calendr ar ôl cyrraedd y llety gwasgaru, mae'n rhaid i Clearsprings Ready Homes ddarparu gwasanaeth briffio 'symud i mewn', sy'n cynnwys gweithredu offer diogelwch a chyfleusterau; gwybodaeth am y mathau o wasanaethau y gall pobl eu disgwyl, gwybodaeth am ddisgwyliadau o ran ymddygiad a chyfeirio at gyngor ac arweiniad y darparwr AIRE (Migrant Help). Mae hefyd yn ofynnol i Clearsprings Ready Homes gynorthwyo pobl i gofrestru gyda meddygfa a deintyddfa leol (gan ddarparu gwybodaeth am eu lleoliad) a darparu gwybodaeth am yr ardal leol, gan gynnwys lleoliad siopau a chyfleusterau.

Ar ôl saith diwrnod calendr darperir gwasanaeth briffio 'symud i mewn' ychwanegol, gan gynnwys:

- gwybodaeth am sut i gofrestru plant mewn ysgolion priodol (lle bo hynny'n berthnasol).

- cyfeirio pellach gan gynnwys gwasanaethau cyswllt sector gwirfoddol lleol, gwasanaethau cymorth lloches y Swyddfa Gartref, gwasanaethau perthnasol y cyngor, gwasanaethau brys a'r gwasanaeth heddlu lleol, ymgynghorwyr cyfreithiol, cyfleusterau hamdden a chrefyddol a diwylliannol lleol, lle bo hynny'n briodol.

## Pa fath o gefnogaeth feddygol a chyfeirio fydd ar gael?

Mae CRH yn gweithio gyda chynghorau a chydweithwyr y GIG sy'n cynorthwyo i gofrestru â meddyg teulu a chael mynediad at wasanaethau'r GIG.  Bydd ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd yn cael cynnig cofrestru gyda Meddyg Teulu lleol (bydd y GIG lleol yn rhoi gwybod pa feddygfeydd sydd ar gael).

## Pa wiriadau mae'r Swyddfa Gartref yn eu cynnal i sicrhau fod ystyriaethau iechyd cyhoeddus yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn gweithrediadau gwasgaru?

O hynny ymlaen, bydd yr unigolion yn cael cynnig yr un gwasanaethau GIG â thrigolion eraill y DU. Dan ganllawiau newydd, ni fydd unrhyw un sydd â symptomau (gan gynnwys y rhai sydd wedi cael prawf positif) o glefyd heintus yn y  ganolfan brosesu ddechreuol yn Manston yn syth ar ôl cyrraedd yn cael symud ymlaen i'r ystâd llety ceiswyr lloches.

Bydd ceiswyr lloches naill ai'n aros yng nghanolfan Manston i hunanynysu am gyfnod byr neu'n cael eu lleoli yn llety hunanynysu arbennig y Swyddfa Gartref yn ne ddwyrain Lloegr.  Mae'r llwybr newydd hwn yn ategu at y gwasanaethau iechyd presennol a ddarperir ar unwaith pan fydd unigolion yn cyrraedd safle Western Jet Foil, (WJF), a'r ddarpariaeth gofal iechyd 24/7 a gynigir, sy'n cynnwys cynnig brechlyn difftheria arbennig.  Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi datblygu proses sgrinio a phrofi ar gyfer clefydau heintus gan ymgynghori â'r GIG.

Yn ogystal â hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio gydag Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU i gryfhau eu gweithdrefnau profi a sgrinio ar gyfer clefydau heintus, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Difftheria.

Mae rheoli lledaeniad Difftheria a chyflyrau posibl eraill, a thrin unigolion sydd â symptomau, yn ymdrech ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, gwasanaethau GIG lleol a chynghorau.

## A yw hunaniaeth unigolion yn cael ei wirio? Pa wiriadau sydd wedi cael eu cynnal mewn perthynas â chofnodion troseddol?

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth y DU i ddiogelu'r DU a'i thrigolion, a chynhelir gwiriadau diogelwch ar bob ceisiwr lloches gan ddefnyddio cronfeydd data mewnfudo a'r heddlu i nodi'r rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â throseddau yn y DU

neu dramor - gan gynnwys troseddau rhyfel, troseddau yn erbyn dynoliaeth a therfysgaeth.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth o dan yr adran 'sgrinio lloches' am y gwiriadau manwl a gyflawnwyd.

Dogfennau Hunaniaeth
Bydd gan rai ceiswyr lloches eu pasbortau a'u dogfennau teithio eu hunain. Fodd bynnag, mae nifer o geiswyr lloches yn cyrraedd heb ddogfennau a chaiff gwiriadau eu cynnal ar unwaith i ganfod eu hunaniaeth.

## Pa gyllid sydd ar gael?

Funding instruction for councils: Asylum Dispersal Grant 2022-2023 (accessible version) - GOV.UK (www.gov.uk)

## Ble arall allaf gael help?

AASC_-_Schedule_2_-_Statement_of_Requirements.pdf (parliament.uk)
Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y mesurau a ddefnyddir i wella'r system ceisio lloches yma:

Accommodation sites factsheet - April 2023 - Home Office in the media (blog.gov.uk)

Mae gwybodaeth am y broses ar gael yma.

## Beth yw eich manylion cyswllt i gael rhagor o wybodaeth?

E-bostiwch WSMPComms@wlga.gov.uk gan nodi 'Ymholiad Lloches' fel pwnc i'ch neges.